WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Hysbysiad Prosesu Teg: Archwilydd Cyffredinol Cymru

Pwy ydym ni: Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn archwilio sut y mae cyrff cyhoeddus yn rheoli ac yn gwario arian cyhoeddus, ac mae gan Swyddfa Archwilio Cymru staff ac adnoddau i'w alluogi i gyflawni ei waith

Swyddog Diogelu Data: Ein Swyddog Diogelu Data yw Martin Peters a gellir cysylltu ag ef dros y ffôn ar 029 2032 0500 neu drwy e-bost: infoofficer@audit.wales

Diben prosesu: Rydym yn casglu eich gwybodaeth bersonol ar gyfer ein gwaith, sy'n cynnwys gwaith archwilio a gwaith proffesiynol, technegol neu weinyddol arall.

Y cyfreithiau perthnasol (sail gyfreithiol): Rydym yn prosesu data personol yn unol â Deddf Diogelu Data 2018 a'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data. Ein sail gyfreithiol ar gyfer prosesu yw'r pwerau a'r dyletswyddau statudol dan ddeddfwriaeth sy'n cynnwys Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, Deddf Llywodraeth Cymru 1998, Deddf Llywodraeth Cymru 2006, Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009; Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Pwy fydd yn gweld y data? Bydd yr Archwilydd Cyffredinol a thîm astudio Swyddfa Archwilio Cymru yn cael gweld yr wybodaeth a roddwyd gennych. Mae'n bosibl y byddwn yn rhannu rhywfaint o wybodaeth gydag uwch reolwyr y corff (cyrff) a archwilir ac mae'n bosibl y bydd yr adroddiad y byddwn yn ei chyhoeddi yn cynnwys rhywfaint o wybodaeth. O ran ein gwaith llywodraeth leol, mae'n bosibl y byddwn yn rhannu rhywfaint o ddata gyda rheoleiddwyr gwasanaethau cyhoeddus eraill, megis AGC ac Estyn, pan fo'r gyfraith yn caniatáu hyn.

Pa mor hir fyddwn ni'n cadw'r data? Byddwn yn cadw eich data am 7 mlynedd (neu 25 mlynedd os caiff ei gynnwys mewn adroddiad a gyhoeddir).

Ein hawliau: Mae gan yr Archwilydd Cyffredinol hawl i gael gwybodaeth, esboniad a chymorth dan baragraff 17 o atodlen 8 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ac/neu yn adran 52 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 ac/neu yn adran 26 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Gall fod yn drosedd i berson fethu â darparu gwybodaeth a'r gosb am hyn yw dirwy.

Eich hawliau: Mae gennych hawl i ofyn am gopi o'r wybodaeth bersonol gyfredol sy'n cael ei gadw amdanoch chi neu wrthwynebu prosesu data sy'n achosi niwed a gofid diangen a sylweddol. Cysylltwch â'r Swyddog Gwybodaeth, Swyddfa Archwilio Cymru, 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9LJ neu anfonwch neges e-bost at infoofficer@audit.wales

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth: I gael rhagor o wybodaeth am gyfraith diogelu data neu i wneud cwyn am sut yr ydym yn ymdrin â'ch data personol, cewch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth: Information

Commissioner’s Office, Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Cheshire, SK9 5AF, drwy e-bost: casework@ico.gsi.gov.uk neu dros y ffôn 01625 545745.